Tasg 1

Oeddech chi'n gwybod?

Bobl bach!

1. Ydych chi wedi dysgu rhywbeth newydd o'r sioe sleidiau? Beth?

2. Pa ffaith yw'r un fwyaf diddorol yn eich barn chi? Pam?

3. Mae'r darn yn dweud bod tua 25,000 o facteria ar bob modfedd sgwâr o'ch ffôn symudol.

Sut gallwch chi wneud yn siŵr bod cyn lleied â phosib o facteria ar eich ffôn bob amser? Meddyliwch am bethau fel:

ble rydych chi'n defnyddio'r ffôn

ble rydych chi'n rhoi / gosod eich ffôn

rhoi benthyg y ffôn i bobl eraill

gofalu a glanhau

adeg annwyd / salwch arall

Trafodwch eich syniadau mewn grŵp.

4. Dyma ddwy ffaith ystadegol o'r sioe sleidiau:

Mae gan dros 80% o bobl y byd ffôn symudol.

Mae tua 74% o ddefnyddwyr ffonau symudol yn defnyddio'u ffôn i siopa.

Chwiliwch am ddwy ffaith ystadegol arall am ddefnyddio ffôn symudol / ffôn clyfar, e.e.

faint o bobl sy'n ...

- defnyddio'r ffôn yn y gwely / sy'n mynd â'r ffôn i'r gwely gyda nhw
- gaeth i'w ffôn
- defnyddio'r ffôn wrth yrru
- ac ati.

Yna, rhannwch y wybodaeth mewn grŵp.

5. Gwnewch ffeithlun i ddangos 6 o'r ffeithiau mae'r grŵp wedi eu casglu.

- Cyn dechrau, trafodwch beth yw'r meini prawf llwyddiant ar gyfer gwneud ffeithlun. Gwnewch nodiadau wrth i chi drafod.
- Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill.

Yna, gwnewch y ffeithlun.